Ardystiad Albert

Rydym yn annog holl gynyrchiadau a chwmniau cynhyrchu S4C i ymuno â phroses ardystio albert. Nid yw hyn yn ofyniad cyfleu gorfodol, ond byddwn yn gofyn i gyflenwyr nad ydynt yn ymuno â'r broses ardystio egluro pa rwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan o fewn manyleb gomisiynu'r rhaglen. Disgwyliwn i uwch aelodau'r tim cynhyrchu arwain ar gynaliadwyedd eu rhaglen, a chysylltu â thîm albert yn Bafta cyn gynted â phosibl ar ôl y comisiwn er mwyn dechrau'r broses.

Noder nad yw proses ardystio albert wedi'i hanelu at gynhyrchwyr sy'n creu cyfres sy'n llai na 15 munud o hyd a/neu sydd â chyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000. Mae proses amgen ar gyfer y cynnwys hwn yn cael ei harchwilio wrth i ni symud tuag at ein strategaeth comisiynu digidol.

Bydd cynyrchiadau sy'n llwyddo i gyflawni ardystiad albert yn cael caniatâd i arddangos logo neu fathodyn cynhyrchiad cynaliadwy albert i'w ddefnyddio yn y cydnabyddiaethau ar ddiwedd rhaglenni, sy'n dangos bod arferion gorau cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn y cynhyrchiad.